# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 19 Gorffennaf 2005

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** Sut mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cefnogi Hoci Sglefrolio yng Nghymru. (WAQ43810)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A oes unrhyw gynlluniau i adeiladu cyfleuster hoci sglefrolio yng Nghymru. (WAQ43811)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y ceisiadau am grantiau ar gyfer parciau a gerddi oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri a wnaed ymhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, nifer y ceisiadau hynny a fu'n llwyddiannus, a'r symiau a ddyfarnwyd. (WAQ43812)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y ceisiadau am grantiau cymorth Cadw ar gyfer ardaloedd cadwraeth a wnaed ymhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, nifer y ceisiadau hynny a fu'n llwyddiannus, a'r symiau a ddyfarnwyd. (WAQ43813)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y ceisiadau am Grant Adeiladau Hanesyddol Cadw a wnaed ymhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, nifer y ceisiadau hynny a fu'n llwyddiannus, a'r symiau a ddyfarnwyd. (WAQ43814)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y ceisiadau am grantiau ar gyfer parciau a gerddi oddi wrth y Cyngor Adeiladau Hanesyddol a wnaed ymhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, nifer y ceisiadau hynny a fu'n llwyddiannus, a'r symiau a ddyfarnwyd. (WAQ43815)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer a lleoliad Mentrau Treftadaeth Trefluniau Cadw ymhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. (WAQ43816)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer a lleoliad Cynlluniau Partneriaethau Trefi Cadw ymhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. (WAQ43817)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y ceisiadau am grantiau Cronfa Dreftadaeth y Loteri a wnaed ymhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, nifer y ceisiadau hynny a fu'n llwyddiannus, a'r symiau a ddyfarnwyd. (WAQ43820)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi canllawiau ar y pedwerydd opsiwn. (WAQ43818)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chynghorau yng Nghymru am eu profiad o weithredu'r system gabinet mewn llywodraeth leol. (WAQ43819)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a fydd y sganwyr MRI sydd ar hyn o bryd yn y broses o gael eu comisiynu neu eu newid yn (a) Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru; (b) Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych; (c) Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru; (d) Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin; (e) Ymddiriedolaeth GIG Abertawe; (f) Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg; (g) Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda; (h) Ymddiriedolaeth GIG Felindre; (i) Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro; a (j) Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent yn cael eu hariannu o'r £21 miliwn a gyhoeddwyd ar 17 Mawrth 2005 ar gyfer "sganwyr MRI ac offer eraill " trwy brosiect Moderneiddio Gwasanaethau Delweddu Cymru Gyfan, neu a fyddant yn cael eu hariannu trwy'r arian sydd gan yr Ymddiriedolaethau ar hyn o bryd neu drwy gyllid arall gan y Cynulliad. (WAQ43809)